

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/1289/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Ebrill 2019

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynglŷn â diwygio darpariaeth awtistiaeth a'ch gwahoddiad i'r Pwyllgor yn yr haf. Byddai'n bleser mawr gennyf dderbyn y gwahoddiad hwnnw.

Cyhoeddwyd adroddiad llawn y gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar 1 Ebrill. Yna, dyroddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 3 Ebrill, sy'n rhoi trosolwg o ganlyniadau'r gwerthusiad a'n camau nesaf. Mae hefyd yn esbonio'r gwaith ymchwil pellach sy'n cael ei wneud ar y rhwystrau i wella amseroedd aros am ddiagnosis a chysondeb rhwng gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Cwblhawyd yr ymchwil hon yn ystod mis Mawrth, ac rydym yn disgwyl y bydd yr adroddiad ar gael erbyn mis Mehefin. Ymhellach, byddaf yn parhau i fonitro'r gwelliant a wneir o ran gweithredu gwasanaethau i bobl awtistig. Mae gwerthusiad annibynnol dwy flynedd pellach yn yr arfaeth, a dylai'r contract ar gyfer y gwaith hwn fod wedi'i neilltuo erbyn yr haf.

Fel y byddwch yn ymwybodol, cychwynnais ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ein cynigion ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, a gaedd ar 1 Mawrth. Cafwyd 60 o ymatebion. Yn ystod y broses ymgynghori tri mis, ymgysylltodd fy swyddogion ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys drwy bedwar digwyddiad ymgynghori mawr i randdeiliaid yn Llandrindod, Abertawe, Llandudno a Chaerdydd. Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiadau hyn ac adborth gwerthfawr o ganlyniad iddynt a gaiff ei ddefnyddio i ddatblygu'r cod. Cyhoeddir crynodeb o'r adborth ymgynghori erbyn mis Mehefin ac mae fy swyddogion yn sefydlu grwpiau technegol i roi cyngor arbenigol ar ddatblygu'r cod. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cod ymarfer drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn mis Rhagfyr eleni.

Mae'n bleser gennyf hefyd gadarnhau bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn weithredol ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn. Rwy'n cydnabod bod y gwasanaeth wedi'i sefydlu'n well mewn rhai rhanbarthau nag eraill gan ei fod yn cael ei gyflwyno'n raddol. Byddwn yn parhau i sefydlu a gwella'r gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi'r ail adroddiad blynyddol ar weithredu'r strategaeth awtistiaeth erbyn mis Mehefin. Ar ôl ei gyhoeddi, croesawaf y cyfle i drafod y canlyniadau a gyflawnwyd dros y flwyddyn weithredol ddiwethaf ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithredu yn y dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services